# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn yr Hen Lys a thrwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 20 Mawrth 2023 am 7:00pm.

**YN BRESENNOL**: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Anne Roberts, Jabez Redfern Oakes, Ian Lewney, Stephen Beach, Christine Ellis, Rachel Ryland, Lisa Thomas, Gavin Harris, Peter Daniels, Oliver Bradley-Hughes, Dafydd Hughes a Mike van der Eijk drwy Zoom.
Cynghorydd Sir, Emrys Wynne

**YN BRESENNOL:** Iolo Williams – Clerc y Dref
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys
Marian Rees – Cyfieithydd

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer, y Cynghorydd Menna Jones y cynghorwyr a'r sylwedyddion. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Mike van Der Eijk a oedd yn ymuno drwy Zoom ar ôl dal Covid yn ddiweddar, a'r Cynghorydd Heather Williams a oedd yn gobeithio ymuno drwy zoom os y gallai.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 3. ADRODDIAD Y MAER

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Chwefror a Mawrth 2023.
***PENDERFYNWYD:*** *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

## 4. ADRODDIADAU'R AELODAU

Trafododd yr Aelodau Adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r Agenda. Diolchodd y Maer i'r Cynghorwyr am eu hadroddiadau. Yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig, rhoddodd y Cynghorydd Gavin Harris adroddiad llafar pellach ar ei ymweliad â'r digwyddiad Ystafelloedd Trefol, a dywedodd y bwriadwyd cynnal cyfarfod mis Medi yn Rhuthun.
***PENDERFYNWYD:*** *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

## 5. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

N chafwyd adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir – cafwyd problemau technegol gyda'r offer cyfieithu.

***PENDERFYNWYD:*** *parhau â'r cyfarfod yn Saesneg yn unig oherwydd anawsterau technegol.*

**6. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL**

***PENDERFYNWYD****: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2023 yn gywir.*

**7. MATERION YN CODI –** Rhoddodd y Cynghorydd Gavin Harris y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod ynghylch y Gronfa Ffyniant Bro a alwyd gan David Jones AS i egluro'r camau sy'n cael eu cymryd gan Gyngor Sir Ddinbych o ran y gwaith cyfathrebu sydd i gael ei wneud ganddynt – Cadarnhaodd y Cynghorydd Emrys Wynne, a oedd hefyd yn y cyfarfod, sylwadau'r Cynghorydd Harris gan ddweud bod Gavin wedi rhoi amlinelliad da o'r cyfarfod.

**8. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.
***PENDERFYNWYD****: derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.*

Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne godi'r problemau baw cŵn gyda Chyngor Sir Ddinbych gan na chafwyd ymateb.

Ailadroddodd y Cynghorydd Gavin Harris ei gynnig o'r Pwyllgor Amwynderau i dalu costau yswiriant Parc Seren er mwyn caniatáu i'r pwyllgor agor y parc. Roedd y parc wedi cael ei gynnal a'i gadw gan y cyngor ond mae'r gwirfoddolwyr wedi cael les ac wedi moderneiddio'r offer drwy eu hymdrechion codi arian eu hunain ac roedd y cynghorwyr yn dymuno eu cefnogi er mwyn caniatáu iddynt agor y parc. Mae gostyngiadau ar gael am ymrwymo i gytundeb hirdymor a chynigiodd ein bod yn talu am y gost hon drwy gymorth grant. Cadarnhaodd y Cyngor ycynnig hwn.

**9. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

***PENDERFYNWYD****: derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.*

**10. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'IR HEN LYS**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.
***PENDERFYNWYD****: derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023. Gofyn i'r clerc gynnal archwiliad i weld pwy sydd ar gael er mwyn galluogi Cynghorwyr a staff i benderfynu ar amser a diwrnod priodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.*

**11. Parc Seren** Trafodwyd o dan eitem agenda'r Pwyllgor Amwynderau uchod.

**12. Un Llais Cymru** Roedd y Clerc wedi dosbarthu deunydd i Gynghorwyr ymlaen llaw.

***PENDERFYNWYD*** adnewyddu'r aelodaeth

**13. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** – Atgoffodd y clerc y Cynghorwyr o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn lwfans 2022-23. Mae'r panel yn gyfrifol am dalu treuliau i gynrychiolwyr etholedig ledled Cymru. Diben y dyfarniad yw cyfrannu at gostau cynghorwyr yn sgil cynrychioli eu cymunedau, ac mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn caniatáu treuliau rhesymol o tua £3 yr wythnos. Mae'r lwfans yn newid ar gyfer 2023-24 fel y manylir yn yr Adroddiad Blynyddol a ddosbarthwyd i gynghorwyr.

**14. CofebTom Pryce –** Roedd y Cynghorydd Anne Roberts wedo cael cwynion gan ymwelydd am gyflwr y Gofeb. Mae'r Clerc wedi comisiynu gwaith o lanhau'r cerrig palmant er mwyn ymdrin â phroblem Iechyd a Diogelwch. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y gofeb ei hun a'r polion ac mae'r clerc yn ymdrin â hyn.

15. Yn y Pwyllgor Cynllunio, trafodwyd dileu safle ar Hen Lôn Parcwr o'r rhestr o safleoedd cymeradwy a dywedwyd wrth y Cynghorwyr mai aelod lleol oedd wedi gofyn am ei ddileu – roedd hyn oherwydd defnydd blaenorol ar gyfer cyflogaeth a'r teimlad bod y safle'n fwy addas ar gyfer defnydd cyflogaeth na phreswyl.

16. Enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023-24
Enwebwyd y Cynghorydd Anne Roberts MBE yn Faer gan y Cynghorydd Christine Ellis ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Steven Beach.
Enwebwyd y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes yn Ddirprwy Faer gan y Cynghorydd Ian Lewney ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Lisa Thomas. Cadarnhaodd y Cynghorwyr y penodiadau.
Diolchodd y Cynghorydd Menna Jones i'r ddau am dderbyn yr anrhydedd o fod yn Faer a Dirprwy Faer am y flwyddyn sydd i ddod.

17. Y Cymorth Mawr 8 Mai 2023 – Ffurfiwyd is-bwyllgor i gynorthwyo'r Maer i drefnu digwyddiad i ddiolch a dathlu gwirfoddolwyr lleol, sef y Cynghorwyr Steven Beach, Anne Roberts, Jabez Redfern Oakes, Menna Jones gyda chymorth Lisa Thomas a Gavin Harris.

18. Derbyniodd yr Aelodau'r datganiad ariannol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2023.
***PENDERFYNWYD:*** *derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2023.*

19. Derbyniwyd y **cyfrifon i'w talu** a chymeradwyodd y Cynghorwyr y rheolau sefydlog ar gyfer dau daliad misol rheolaidd am y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

20. Dyddiad y cyfarfod nesaf 24 Erill 2023